



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru

Canllawiau i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu  
ysgolion a gynhelir

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 112/2013  
Dyddiad cyhoeddi: August 2013

# Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru

- Cynulleidfa** Cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; Llywodraethwyr Cymru ac unrhyw gorff arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr.
- Trosolwg** Mae cynnwys y canllawiau hyn yn ymwneud â darpariaethau yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013.
- Camau i'w cymryd** Rhaid i awdurdodau lleol ac unrhyw gorff arall sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ystyried cynnwys y canllawiau hyn wrth lunio eu rhaglen hyfforddiant gorfodol ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 6051  
Ffacs: 029 2082 6109  
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)
- Dogfennau cysylltiedig** Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013

## Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Trosolwg</b>	<b>1</b>
	A. Rolau a chyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraethu	2
	B. Rôl a sgiliau'r Cadeirydd	4
	C. Cydberthnasoedd pwysig	5
	Ch. Sut i fod yn Gadeirydd effeithiol	7
	D. Dyletswyddau eraill y Cadeirydd	8
	Dd. Ble i gael gafael ar ragor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant	9
<b>2.</b>	<b>Gwybodaeth gefndirol a dolenni perthnasol</b>	<b>11</b>

# 1. Trosolwg

1.1 Eir ati yn y ddogfen hon i nodi cwmpas a chynnwys hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu.

1.2 Bydd disgwyl i'r Cadeiryddion gael yr hyfforddiant a amlinellir yn y ddogfen hon.

1.3 Bydd yr hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod Cadeiryddion:

- i. yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyflawni'r rôl yn effeithiol er mwyn cynorthwyo yn y gwaith o wella'r ysgol, codi safonau perfformiad, sicrhau lles disgyblion a gwella safon yr addysg a ddarperir;
- ii. yn datblygu a gwella'r ddealltwriaeth sydd ganddynt o rôl Cadeirydd effeithiol wrth arwain y Corff Llywodraethu;
- iii. yn gwella'u hyder, eu sgiliau arwain a'u gallu i ddatblygu perthnasau effeithiol gyda'r Pennaeth er mwyn iddyn nhw allu herio a chefnogi'r ysgol;
- iv. yn ymwybodol o faterion addysgol cenedlaethol a lleol a'r effaith y mae'r materion hynny'n eu cael ar gyrff llywodraethu;
- v. yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd hyfforddiant a'r angen i feithrin eu sgiliau a sgiliau'r Corff Llywodraethu a manteisio ar gyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael iddynt.

1.4 Bydd yr hyfforddiant yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer llywodraethu ysgolion yng Nghymru a bydd yn diffinio'n glir yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu wrth iddynt ymgymryd â'u rôl – rhoi arweiniad clir wrth drefnu gwaith y Corff Llywodraethu, canolbwyntio ar y rôl strategol, yr amryfal bwerau a dyletswyddau sydd gan gyrff llywodraethu; rôl y corff o ran gwella'r ysgol; sut y mae'r corff yn cefnogi ac yn herio gwaith yr ysgol; rôl y corff o ran monitro a gwerthuso cynnydd yn yr ysgol; a bod yn 'gyfaill beirniadol' i'r Pennaeth.

1.5 Yn ogystal, bydd yr hyfforddiant i Gadeiryddion yn cynorthwyo Llywodraethwyr i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau allweddol, hynny yw, y sgiliau a'r rhinweddau y mae eu hangen ar Gadeirydd effeithiol a fydd yn ychwanegu at gorff llywodraethu, megis arwain tîm, hunanhyder, gwaith tîm effeithiol, datrys problemau, rheoli amser, ysgogi, sgiliau dirprwyo da, a chymorth i lywodraethwyr eraill.

1.6 Bydd yr hyfforddiant yn rhoi trosolwg ar lywodraethu ysgolion, a hynny mewn pedwar maes sy'n perthyn i'w gilydd. Caiff yr hyfforddiant ei drefnu'n chwe maes rhyngberthynol fel a ganlyn: (yn seiliedig ar y fanyleb)

- A. Rolau a chyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraethu;
- B. Rôl a Sgiliau'r Cadeirydd;
- C. Perthnasau Allweddol;
- D. Sut i fod yn Gadeirydd effeithiol;
- E. Dyletswyddau statudol eraill y Cadeirydd;
- F. Ble i gael cymorth a hyfforddiant pellach.

## A. Rolau a chyfrifoldebau allweddol cyrff llywodraethu

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

### Pwerau a dyletswyddau'r Corff Llywodraethu

- i. **Cynnig golwg strategol** – pennu'r fframwaith a fydd yn llywio'r ffordd y mae'r Pennaeth a'r staff yn mynd ati i redeg yr ysgol; pennu'r nodau a'r amcanion; cytuno ar y polisiau, y targedau a'r blaenoriaethau er mwyn cyrraedd yr amcanion hynny; monitro a gwerthuso.
- ii. **Bod yn gyfaill beirniadol** – cefnogi a herio'r Pennaeth a'r staff, gan geisio gwybodaeth ac esboniadau.
- iii. **Sicrhau atebolrwydd** – esbonio penderfyniadau'r Corff Llywodraethu, ac unrhyw gamau a gymerir ganddo, wrth unrhyw un sydd â buddiant dilys.

### Cyfrifoldebau Craidd

- i. **Safonau** – sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol, ac o ran presenoldeb ac ymddygiad, gan gynnwys mynd ati i adolygu'n drwyadl unrhyw ddata a gyhoeddwyd am berfformiad.
- ii. **Targedau** – gosod targedau i'w defnyddio wrth fesur cynnydd o ran cyflawniad a deilliannau disgyblion.
- iii. **Y cwricwlwm** – sicrhau bod pob dysgwr yn cael manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys, a bod gofynion statudol yn cael eu bodloni.
- iv. **Penderfynu ar nodau, polisiau a blaenoriaethau'r ysgol** – mewn trafodaethau am Gynllun Datblygu/Gwella'r Ysgol, Hunanwerthuso gan yr Ysgol; diweddarau a chymeradwyo polisiau a dogfennau statudol.
- v. **Cyllid** – penderfynu ar gyllideb yr ysgol, a'i monitro.

- vi. **Staffio**<sup>1</sup> – penderfynu ar nifer y staff, y polisi cyflogau a gwneud penderfyniadau am gyflogau'r staff, penodi staff, atal staff dros dro, materion disgyblu a diswyddo, cwynion, rheoli perfformiad a materion yn ymwneud â sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer y Pennaeth a'r staff, ac ymdrin â'r holl faterion hyn gan roi'r sylw dyledus i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.
- vii. **Rhoi gwybodaeth am yr ysgol i rieni** – ee. drwy adroddiad blynyddol i rieni a chyfarfod sy'n statudol-ofynnol gyda'r rhieni.
- viii. **Paratoi ar gyfer arolygiadau a chymryd y camau dilynol** – gan gynnwys paratoi cynllun gweithredu a monitro cynnydd ar ôl arolygiad gan Estyn.
- ix. **Lles dysgwyr, a'u diogelu** – gan gynnwys hyrwyddo bwyta'n iach.
- x. **Ymwybyddiaeth am gyfrifoldebau'r Llywodraethwyr wrth ymdrin â materion yn ymwneud â chydaddoldeb, a lle i gael cyngor yn hyn o beth.**
- xi. **Mynd ati, yn ôl y gofyn, i werthuso perfformiad y Corff Llywodraethu.**

### **Sut y cyflawnir gwaith y Corff Llywodraethu**

Corff Llywodraethu a chyfarfodydd statudol ac anstatudol.

- Rôl y pwyllgorau (y pwyllgorau statudol – a'r pwyllgorau eraill (gweler isod), cytuno'n flynyddol ar aelodaeth ac ar gylch gorchwyl y pwyllgorau a'u hadolygu; cyfathrebu effeithiol rhwng y pwyllgorau a'r Corff Llywodraethu, hynny yw, adrodd yn ôl:

Pwyllgorau statudol:

Pwyllgor disgyblu a diswyddo staff.

Pwyllgor apêl disgyblu a diswyddo staff.

Pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion.

Pwyllgor derbyniadau (ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig ac unrhyw ysgol lle mae'r awdurdod lleol wedi dirprwyo awdurdod dros dderbyniadau i gyrrff llywodraethu).

Gweithdrefnau Statudol yn eu lle ar gyfer y materion a ganlyn:

Panel dethol Pennaeth a Dirprwy Benaethiaid.

Arfarnwyr Rheoli Perfformiad ar gyfer y Pennaeth ac Arfarnwr (Arfarnwyr) Apelau.

---

<sup>1</sup> Yn ymdrin, lle y bo hynny'n briodol, â'r gwahaniaethau rhwng cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu am staff, a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol fel cyflogwr.

Adolygu cyflogau ac apelau'n ymwneud ag adolygu cyflogau.

Cwynion ac apelau'n ymwneud â chwynion.

Gallu ac apelau'n ymwneud â gallu.

Gweithdrefnau cwyno.

## **B. Rôl a sgiliau'r Cadeirydd**

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn:

### **Disgrifyddion ar gyfer Rôl y Cadeirydd**

- Rhoi arweiniad wrth drefnu gwaith y Corff Llywodraethu – gweledigaeth glir o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a datblygu ymdeimlad o ddiben a chyfeiriad.
- Sicrhau bod pob llywodraethwr yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol a'u bod yn cymryd rhan lawn yn y cyfarfodydd.
- Sicrhau bod y Corff Llywodraethu'n gweithio fel tîm.
- Gwneud defnydd da o sgiliau ac arbenigedd aelodau ac annog aelodau i wneud y mwyaf o gyfleoedd hyfforddiant a datblygu.
- Trefnu bod Llywodraethwyr newydd yn cael eu mentora a'u hymsefydlu.
- Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol.
- Cynnal perthynas effeithiol â'r Pennaeth.
- Cynnal perthynas effeithiol â'r Clerc.
- Bod yn llefarydd ar ran y Corff Llywodraethu pan fo hynny'n briodol.
- Datblygu gwybodaeth dda am yr ysgol – data am berfformiad yr ysgol, gwerthoedd a gweledigaethau'r ysgol.
- Cysylltu ag asiantaethau eraill i gefnogi'r gwaith o wella'r ysgol.
- Cyflawni swyddogaethau a ddirprwyir i'r Cadeirydd mewn achos brys (sonnir am hyn ym maes allweddol E).
- Gwybod y diweddaraf am fentrau megis cydweithio/ffedereiddio, a hyrwyddo ymwybyddiaeth ohonynt (fel sy'n briodol).
- Gwybod paramedrau cyfrifoldebau'r Cadeirydd a'r Corff Llywodraethu.

### **ii Disgrifyddion ar gyfer Rôl y Dirprwy Gadeirydd**

- Cynorthwyo'r Cadeirydd wrth gynnal cyfarfodydd.
- Cymryd lle'r Cadeirydd pan fo angen.

### iii Sgiliau'r Cadeirydd

- Adnabod y ffiniau rhwng llywodraethu a rheoli.
- Y gallu i gynnwys Llywodraethwyr yn effeithiol yng ngwaith y Corff Llywodraethu.
- Delio â materion yn ddiuedd â gan arfer sensitifrwydd.
- Y gallu i flaenoriaethu a mynd i'r afael â materion anodd pan fyddant yn codi.
- Sgiliau gwrandao da a sgiliau da o ran rheoli amser, doethineb a thact, gwrthrychedd a'r gallu i fod yn ddiplomataidd.

## C. Cydberthnasoedd pwysig

Mae'r maes allweddol hwn yn canolbwyntio ar berthynas y Cadeirydd gyda'r Pennaeth, y Clerc a'r Corff Llywodraethu. Mae'n hanfodol ei fod yn meithrin perthynas effeithiol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd at rôl y llall yn hanfodol:

### Gweithio gyda'r Pennaeth:

- i. Y gwahaniaeth rhwng llywodraethu a rheoli – diffinio'r rolau gwahanol:  
  
**Y Pennaeth:** yn gyfrifol am drefniadaeth fewnol yr ysgol, am reoli'r ysgol ac arfer rheolaeth arni, cynghori am fframwaith strategol y Corff Llywodraethu a pholisïau, a'u rhoi ar waith.
- ii. Mae perthynas y Cadeirydd â'r Pennaeth yn hanfodol i lwyddiant yr ysgol. Mae cyfarfodydd/trafodaethau rheolaidd yn hanfodol fel y nodir isod:
  - Mae pryd a pha mor aml y dylai'r Cadeirydd gwrdd â'r Pennaeth yn dibynnu ar sawl ffactor – er enghraifft: cyn cyfarfodydd llawn y Corff Llywodraethu, cyfarfodydd pwyllgorau, cyfarfodydd i drafod gwaith yr ysgol, gosod agendâu, llunio'r adroddiad blynyddol i rieni, materion brys, rhoi ystyriaeth i ffyrdd eraill o gyfathrebu – ffôn/e-bost.
  - Pennu'r mathau o faterion i'w trafod – megis materion sy'n wynebu'r ysgol, a yw'r ysgol yn paratoi ar gyfer arolygiad ai peidio.
  - Cynllunio a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd.
  - Cefnogi a herio'r Pennaeth mewn modd strategol.
  - Pennu eitemau cyfrinachol, megis syniadau ar gam cynnar yn eu datblygiad pan fydd y Pennaeth yn gofyn am farn y Cadeirydd.
  - Ystyried cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith y Pennaeth.



- Rhannu Gwybodaeth gyda'r Corff Llywodraethu.

### **Gweithio gyda'r Clerc:**

#### **i. Rôl y Clerc**

- Dyletswyddau a phwerau – galw cyfarfodydd o'r cyrff llywodraethu; dosbarthu papurau; cymryd a dosbarthu cofnodion cyfarfodydd y cyrff llywodraethu; cynnal cofrestrau aelodaeth a phresenoldeb; cynnig cyngor ac arweiniad ar weithdrefnau yn ystod cyfarfodydd a rhwng cyfarfodydd; sicrhau bod unrhyw gamau dilynol wedi'u cymryd.

#### **ii. Mae sefydlu perthynas waith dda gyda'r Clerc yn hollbwysig er mwyn sicrhau:**

- a. bod gan y Corff Llywodraethu'r holl wybodaeth y mae ei hangen arno;
- b. bod y Corff Llywodraethu'n cael digon o rybudd am gyfarfodydd;
- c. bod papurau'n cael eu hanfon o flaen llaw;
- d. y cytunir ar gylch blynyddol o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu;
- e. bod y Clerc yn cael ei gefnogi a'i annog i ddilyn yr hyfforddiant perthnasol;
- f. y caiff rôl y Clerc ei monitro a'i gwerthuso.

#### **Gweithio gyda'r Pennaeth a'r Clerc i sicrhau:**

- bod eitemau ar yr agenda yn canolbwyntio ar wella'r ysgol – y rôl strategol, rôl sicrhau atebolrwydd a bod yn gyfaill beirniadol gan gyfeirio at gynllun gwella/datblygu'r ysgol, targedau y cytunir arnynt a hunanwerthusiad yr ysgol;
- sicrhau bod Cadeiryddion Pwyllgorau'n dilyn yr un gweithdrefnau.

#### **Gweithio gyda'r Dirprwy Gadeirydd:**

- egluro perthynas y Cadeirydd gyda'r Pennaeth a'r Clerc a'r materion yr ymdrinnir â hwy;
- cynnwys y Dirprwy Gadeirydd yn y cyfarfodydd â'r Pennaeth lle bo hynny'n briodol i drafod materion cyffredinol;
- cael cyfarfodydd ar wahân gyda'r Dirprwy Gadeirydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am faterion sy'n ymwneud â'r Corff Llywodraethu.

### **Gweithio gyda'r Corff Llywodraethu:**

- cefnogi'r Corff Llywodraethu a sicrhau bod pob llywodraethwr yn cael y cyfle i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau.

### **Gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid:**

- sicrhau cyfathrebu da â rhanddeiliaid (rhieni, yr ALI, y gymuned etc) ac ystyried rôl a chyfrifoldebau'r ALI/ yr awdurdod esgobaethol.

## **Ch. Sut i fod yn Gadeirydd effeithiol**

Mae'r maes allweddol hwn yn canolbwyntio ar rôl y Cadeirydd o ran:

- i. trefnu a rheoli cyfarfodydd yn effeithiol;
- ii. arwain y Corff Llywodraethu wrth gefnogi'r ysgol i gyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt drwy ganolbwyntio ar strategaethau ar gyfer gwella'r ysgol;
- iii. sicrhau bod y Corff Llywodraethu a'r pwyllgorau'n gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar gyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol; a
- iv. sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn cefnogi ac yn herio fel 'cyfaill beirniadol' a sicrhau atebolrwydd o ran y safonau a gyrhaeddir a'r addysg a ddarperir:

Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r Pennaeth a'r Clerc i sicrhau cysylltiad rhwng cyfarfodydd y Corff Llywodraethu a chynllunio strategol, monitro a gwerthuso perfformiad yr ysgol – Cynllun Datblygu'r Ysgol/ Cynllun Gwella'r Ysgol, hunanasesiad yr ysgol, data perfformiad a hunanwerthuso'r Corff Llywodraethu drwy:
  - Adroddiad y Pennaeth;
  - o leiaf unwaith y tymor, cynnwys y Corff Llywodraethu mewn trafodaethau am Gynllun Datblygu'r Ysgol/Cynllun Gwella'r Ysgol, Hunanwerthuso gan yr Ysgol.
  - Gweld data perfformiad yr ysgol, a'u hystyried yn drwyadl. Ymwybyddiaeth am sut y mae'r ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol ac yn lleol; cynnwys y Corff Llywodraethu wrth ddynodi'r mesurau pwysicaf i'w monitro a'u hadolygu o ran perfformiad yr ysgol.
  - Nodi eitemau ar gyfer yr agenda (gan gynnwys yr eitemau arferol) a'u blaenoriaethu.

- Ymwybyddiaeth o fentrau'r ysgol, mentrau lleol a mentrau cenedlaethol y mae angen i'r Corff Llywodraethu eu hystyried.
- Sicrhau bod cworwm yn y cyfarfodydd fel y bo modd pleidleisio.
- Rheoli'r drafodaeth yn effeithiol yn ystod cyfarfodydd.
- Dirprwyo rolau.
- Sicrhau didueddrwydd.
- Sicrhau y gofynnir cwestiynau heriol.
- Delio ag achosion o wrthdaro buddiannau yn ystod cyfarfodydd.
- Sicrhau cyfrifoldeb corfforaethol am benderfyniadau a chamau a gymerir.
- Sicrhau cyfrinachedd – ee. o ran trafodion y cyfarfodydd, eitemau cyfrinachol, sut y mae aelodau unigol yn pleidleisio; datgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau (cofrestr o fuddiannau ariannol); sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Corff Llywodraethu.
- Adnabod y ffiniau rhwng llywodraethu a rheoli.
- Annog pob llywodraethwr i rannu ei farn ac ystyried barn pobl eraill.
- Crynhoi prif bwyntiau'r trafodaethau a'r penderfyniadau/camau gweithredu.
- Sicrhau cofnod cywir o bob trafodaeth a phenderfyniad.
- Llofnodi cofnodion cyfarfodydd ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Cefnogi ac annog hyfforddiant a datblygiad i lywodraethwyr.
- Sicrhau cynllunio olyniaeth a mentora ar gyfer Cadeiryddion posibl y dyfodol.

## **D. Dyletswyddau eraill y Cadeirydd**

Mae'r maes allweddol hwn yn canolbwyntio ar y dyletswyddau a'r camau statudol eraill y mae'n rhaid i'r Cadeirydd ymgymryd â nhw os bo angen:

- mewn achos o fater brys lle byddai oedi'n niweidiol i: les yr ysgol neu unrhyw ddisgybl yn yr ysgol; ei rieni / gofalwyr neu berson sy'n gweithio yn yr ysgol;
- cyswllt cyntaf ar gyfer cwynion am y Pennaeth (yn unol â'r gweithdrefnau);
- cyswllt cyntaf ar gyfer honiadau o gamymddwyn yn erbyn y Pennaeth (yn unol â'r gweithdrefnau);

- perfformiad y Pennaeth;
- rheoli perfformiad y Pennaeth;
- gwaith yn ymwneud ag arolygiadau ysgolion;
- materion eraill yn ymwneud ag Adnoddau Dynol;
- cynrychioli'r Corff Llywodraethu gydag ystod o randdeiliaid ac asiantaethau lleol a chenedlaethol eraill.

## **Dd. Ble i gael gafael ar ragor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant**

Mae'r Maes Allweddol hwn yn canolbwyntio ar o le i gael rhagor o wybodaeth, cymorth a hyfforddiant:

### **i. Y Swyddfa Cefnogi Llywodraethwyr a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol/yr Awdurdod Esgobaethol:**

- cylchlythyrau;
- dogfennau briffio;
- rhaglenni a digwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan yr ALI ar gyfer Llywodraethwyr;

### **ii. Llywodraethwyr Cymru – Corff cenedlaethol annibynnol ar gyfer Llywodraethwyr ysgolion**

[www.governorswales.org.uk/cymraeg/](http://www.governorswales.org.uk/cymraeg/)

Llinell Gymorth: 0845 6020100

### **iii. Llywodraeth Cymru:**

- Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion.
- Canllawiau mewn cylchlythyrau:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau-lywodraeth-cymru/>
- Data perfformiad ysgolion – Setiau data craidd Cymru gyfan  
<http://schoolportalwales.org.uk/>

### **iv. Y cymorth a gynigir gan yr ysgol i Gadeiryddion, oddi wrth y Pennaeth, Llywodraethwyr profiadol a'r Clerc:**

- gwybodaeth a ddarperir gan yr ysgol ee. prospectws, cofnodion blaenorol, cynllun gwella'r ysgol, cylchlythyrau;
- cyfarfodydd gyda'r Pennaeth;
- gwybodaeth am y Corff Llywodraethu – rhestr o'r pwyllgorau; calendr o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu a'r pwyllgorau, cylch gwaith y flwyddyn;

- hyfforddi a datblygu Llywodraethwyr – eitem reolaidd ar agenda'r Corff Llywodraethu, cynnal archwiliad o'r hyfforddiant a gynigir i'r Corff Llywodraethu.

## 2. Gwybodaeth gefndirol a dolenni perthnasol

- Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Ymsefydlu cadeiryddion Cyrff Llywodraethu;
- Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion:  
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/schoolgov/schoolgovguide/?lang=cy>
- Llawlyfr ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru:  
<http://www.governorswales.org.uk/llawlyfr/>  
-Canllaw i Lywodraethwyr ar Rôl y Cadeirydd:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau-llywodraeth-cymru/>
- Ffeil Ffeithiau am y Ffrind Beirniadol:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/cyhoeddiadau-llywodraeth-cymru/>
- Canllaw i Lywodraethwyr ar y Corff Llywodraethu effeithiol:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2009/04/27/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-y-corff-llywodraethu-effeithiol/>
- Canllaw i Lywodraethwyr ar Hunanwerthuso:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2011/03/31/canllaw-i-lywodraethwyr-ar-hunanwerthuso/>
- Canllawiau i Lywodraethwyr ar ddefnyddio data perfformiad ysgolion
- Ffeil Ffeithiau Chwalu Jargon:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2006/10/01/chwalu/>  
Cylchlythyrau a chyhoeddiadau Cadwyn - Canolfan Cymru Gyfan ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil:  
<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2012/03/12/cylchlythyrau-canol-fan-cymru/>

Gallwch gael rhagor o wybodaeth oddi wrth Swyddfeydd Cefnogi Llywodraethwyr o fewn Awdurdodau Lleol. Mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn rhan 5 y llawlyfr yn: <http://www.governorswales.org.uk/llawlyfr/>

Gwefannau defnyddiol:

Llywodraeth Cymru: [Cymru: www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraethwyr Cymru: [www.governorswales.org.uk](http://www.governorswales.org.uk)

Estyn: [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: [www.sefcymru.org/eng/sef-p2-home.htm](http://www.sefcymru.org/eng/sef-p2-home.htm)

Safleoedd yr Awdurdod Lleol